Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

14 Mawrth 2019

Annwyl Lesley,

**Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 (SICM(5)18)**

Diolch i chi am eich llythyr ar 15 Chwefror 2019 ynglŷn â Rheoliadau Gwrteithiau a Deunydd Amoniwm Nitrad (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

Fel y nodais yn fy llythyr ar 6 Chwefror, pan fydd Rheoliadau y mae datganiad ysgrifenedig yn cyfeirio atynt yn cael eu diwygio cyn iddynt gael eu gwneud neu eu cyflwyno i'w cymeradwyo gerbron Senedd y DU, rydym yn ystyried y dylid trin y Rheoliadau yn y fformat diwygiedig fel set wahanol o Reoliadau.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn credu y byddai'n fuddiol i dryloywder y broses pe bai Llywodraeth Cymru, ar gyfer gweddill y rhaglen o Offerynnau Statudol yn sgil Ymadael â'r UE, yn gosod datganiadau ysgrifenedig diwygiedig pan gaiff Offerynnau Statudol y DU eu tynnu'n ôl a'u hailosod.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English